OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3366 (Cy.308)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*13 Rhagfyr 2006*
Yn dod i rym - -	*15 Rhagfyr 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 79 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 15 Rhagfyr 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru(**2**).

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006

2. Yn Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**3**) (Ffioedd Band 3 — Darparu Cyfarpar) hepgorer paragraff (i).

(**1**) 1977 p.49.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 79 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), fel y'i diwygiwyd gan adran 66(5) o Ddeddf Iechyd 1999.
(**3**) O.S. 2006/491 (Cy. 60).